
PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 20 MEHEFIN 2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Freya Bentham, Steve Collings, Aled Evans, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elin Walker Jones, Gareth Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Owen, Dewi Roberts ac Elfed Roberts.

Aelod Cyfetholedig: Dilwyn Elis Hughes (UCAC).

Swyddogion yn bresennol: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Yn bresennol ar gyfer eitem 7 isod:

Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Debbie A.W.Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)
Sian Eirug (Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd Dros Dro)

Yn bresennol ar gyfer eitem 8 isod:

Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Debbie A.W.Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)
Gwenan Ellis Jones (Cydlynnydd Siarter Iaith)

Croesawyd y Cynghorwyr Elin Walker Jones a Gareth Jones i'w cyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

1. ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Paul Rowlinson yn gadeirydd y pwyllgor hwn ar gyfer 2019/20.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Elwyn Jones yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn ar gyfer 2019/20.

3. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr:- Huw Wyn Jones, Mair Rowlands, Gareth Williams;
David Healey (ATL);
Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams (Aelod Cabinet Addysg).

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2019 fel rhai cywir, yn amodol ar ychwanegu cyfeiriad at edrych ar y posibilrwydd o gydweithio gyda siroedd y Gorllewin dan eitem 8 - Cais Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru.

7. STRATEGAETH IAITH UWCHRADD

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar weithrediad ac effaith y Strategaeth Iaith Uwchradd.

Ymhelaethodd y Pennaeth Addysg a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Oherwydd y cyd-blethu amlwg rhwng y Strategaeth Iaith Uwchradd a Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd, craffwyd y Siarter Iaith Cynradd hefyd cyn crynhoi'r prif gasgliadau'r trafodaethau ar y ddwy eitem ar y diwedd.

8. SIARTER IAITH GYMRAEG YSGOLION CYNRADD GWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar weithrediad Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd.

Ymhelaethodd y Pennaeth Addysg a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynowyd y prif gasgliadau a'r argymhellion yn codi o'r drafodaeth ar y Strategaeth Iaith Uwchradd a'r Strategaeth Iaith Cynradd fel a ganlyn:-

- Bod neges glir gan yr aelodau i fod yn cadw troed ar y sbardun a pharhau gyda'r bwrllwm, ayb, gan ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae hynny'n benodol er mwyn sicrhau rhoi statws i'r Siarter Iaith, fel rhan o'r cwricwlwm newydd (er bod peth pryder ei fod yn rhedeg ochr yn ochr, yn hytrach nag yn rhan greiddiol ohono), a hefyd er mwyn sicrhau bod statws i'r Siarter Iaith fel rhan o gynlluniau pob un ysgol.
- Bod neges hefyd ynglŷn â rhannu arferion da, gan sicrhau bod hynny'n digwydd yn y cynradd a'r uwchradd yn gyffredinol, a hefyd bod angen adnabod ymarferion da mewn meysydd diddordeb newydd, lle rydym efallai angen canolbwyntio mwy ar yr ochr gwefannau cymdeithasol, y we, rhaglenni teledu ayb.
- Bod neges hefyd ynglŷn â'r gwaith sy'n ddibynnol ar yr holl staff o fewn ein hysgolion ac anogaeth gref i geisio lledaenu'r neges y tu hwnt i ffiniau'r ysgol, gyda rhieni a'r gymdeithas yn fwy cyffredinol.
- O ran y data, bod gwell dealltwriaeth ymysg yr aelodau o'r data a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwn, ond efallai bod lle i ystyried ail ymweld â'r gwaelodlin gwreiddiol a diweddarau aelodau'r pwyllgor maes o law pan fydd astudiaeth y Llywodraeth i'r maes yn aeddfed.
- Yn benodol o ran y Strategaeth Iaith Uwchradd, bod lle i ystyried ymestyn yr holiadur ar gyfer pobl ifanc hŷn (y grŵp oedran 16-18) er mwyn gweld oes yna wersi i'w dysgu, ac o ddysgu'r gwersi, addasu'r cymorth a'r gefnogaeth a'r ymyrraeth sy'n cael eu cynnig.
- Bod lle hefyd i fod yn gwthio'r gweithio gyda'r disgyblion i annog mwy o ddwyieithrwydd a bod hynny'n digwydd yn barhaus o fewn ein hysgolion gan annog disgyblion i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn benodol. Hefyd, dylid sicrhau cefnogaeth i'r athrawon, i'r gweithwyr ieuenctid ac i bawb sydd ynghlwm â hyrwyddo'r Strategaeth Iaith i fod yn cynorthwyo gyda'r Strategaeth yn yr uwchradd a'r Siarter Iaith cynradd.

- Bydd angen edrych y tu allan i'r pwyllgor ar sut y gall yr aelodau gael blas o'r hyfforddiant seicoleg iaith.
- Bydd angen rhoi sylw yng nghyfarfod anffurfiol y pwyllgor i ambell fater arall a gododd yn ystod y drafodaeth, ond nad oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ddau faes dan sylw, sef yr angen i gadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd o ran datblygiadau penodiadau categorïau iaith ysgolion, diffyg gwrslyfrau / deunyddiau Cymraeg i ddisgyblion ysgol a phrinder myfyrwyr yn arwain at ddiswyddiadau yn Ysgol Addysg Prifysgol Bangor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.15 y.h.

CADEIRYDD